# Ditectifs y traeth

45 - 60 mun

Pecyn Athro

Pwnc: Llygredd

CA: 1/2/3

## Canllaw gweithgaredd:

Yr offer sydd ei angen:

- Cylchau hwla
- Menig
- Bagiau bin
- Codwyr sbwriel (dewisol)

**Ar y traeth:**

1. Gosodwch y cylchau hwla ar y traeth.

2. Rhannwch y dosbarth i grwpiau. Ewch drwy'r briff diogelwch. Gwelwch isod rai pwyntiau i'w crybwyll:
    - Cadwch yng ngolwg yr oedolion bob amser
    - Byddwch yn ymwybodol o'r llanw'n troi
    - Gwisgwch fenig bob amser
    - Peidiwch â chodi gwydr wedi torri, nodwyddau neu unrhyw beth nad ydych yn sicŵr ohono

3. Bydd disgyblion yn codi cymaint o sbwriel ag y gallant, yna'n dod ag ef yn ôl i'r cylch hwla ac yn ei drefnu i grwpiau gwahanol, yn ôl ei fath.

4. Yna, bydd y grwpiau hyn yn cael eu defnyddio i ddechrau trafodaeth ynghylch beth yw popeth, sut y bu iddo gyrraedd y môr, a'r hyn y gellir ei wneud i wella'r sefyllfa.

5. Mae taflen wedi'i chynnwys yn y pecyn hwn gydag ambell enghraifft o'r hyn mae modd i chi ddod o hyd iddynt ac ychydig o wybodaeth ddiddorol am yr eitemau i helpu gyda'r drafodaeth.

# Ditectifs y traeth

45 - 60 mun

Pecyn Athro

Pwnc: Llygredd

CA: 1/2/3

## Canllaw gweithgaredd:

Gweler isod rai ffeithiau am y pethau ar y digwyddiad glanhau traeth i'ch helpu i ddechrau eich trafodaethau.

| | | |
|---|---|---|
|  |  |  |
| **Nyrdl -** peledi bach o blastig yw nyrdls. Dyma'r defnydd crai y mae cwmnïau'n ei ddefnyddio i gynhyrchu nwyddau plastig. Maent yn cyrraedd traethau pan fo cynwysyddion yn cael eu colli dros fwrdd llongau wrth iddynt gael eu danfon ar draws y byd. Gallant hefyd cael eu golchi i lawr yr afon o safleoedd diwydiannol ac i mewn i'r môr. | **Weipiau gwlyb a nwyddau glanweithiol** - mae'r rhain yn cael eu rhoi i lawr y toiled, ond mewn gwirionedd maent wedi'u gwneud o blastig ac nid ydynt yn pydru. | **Sbwriel pysgota** - mae rhwydi, bocsys, tagiau, fflotiau a leiniau oll wedi'u gwneud o blastig ac maent yn cyrraedd y môr lle maen nhw'n parhau i ddal bywyd morol yn anfwriadol. Cadwch lygad am dagiau cimwch o'r Unol Daleithiau a Chanada. Gallwch gofnodi rhifau'r tag a'u gyrru i'r Gymdeithas Gadwraeth Forol. |
|  |  |  |
| **Balwnau** - mae'r rhain yn cael eu rhyddhau ar ddamwain neu ar gyfer digwyddiadau elusennol neu digwyddiadau coffa Yn aml maent yn byrstio gan fynd i'r môr lle nad ydynt yn pydru, lle gall gael ei gamgymryd gan anifeiliaid am fwyd. | **Barbeciw tafladwy a phecynnu bwyd** - yn aml mae'r rhain yn cael eu gadael ar y traeth gan dwristiaid. | **Pecynnu plastig** - weithiau gallwch ddod o hyd i becynnu plastig gyda hen ddyluniadau gan fod y sbwriel wedi bod yn arnofio yn y cefnfor am flynyddoedd. |